

**PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU
(Arolygiadau Safle)**

19 Chwefror 2024

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd R
Jordan, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price a'r Cynghorydd S
Skyrme-Blackhall.

Swyddogion yn Bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill, Mr S Davies, Mrs C
Llewellyn (Cofnodion) a Ms G Jones.

(Arolwg Safle: 10.30am – 11.15am)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Heath-Davies, Cynghorydd Dr S Hancock MBE, Mr GA Jones, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd M Wiggins, Cynghorydd A Wilcox a'r Cynghorydd C Williams BEM.

2. Diben yr Ymweliad

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Aelodau i'r cyfarfod a'u hatgoffa mai diben yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd galluogi'r Aelodau i ymgyswngi â safle'r cais a'r ardal o'i gwmpas. Ni fyddai trafodaeth yn digwydd na phenderfyniad yn cael ei wneud tan i'r cais cynllunio gael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

3. NP/21/0752/FUL - Codi 2 dŷ sengl 4 ystafell wely - Mountain Ash Cottage, Ffordd Sandy Hill, Saundersfoot, Sir Benfro, SA69 9PL

Eglurodd y Cyfarwyddwr mai'r cynnig oedd codi dau dŷ y tu ôl i Mountain Ash Cottage. Atgoffwyd yr Aelodau bod y safle eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer dau dŷ newydd ond bod y caniatâd hwnnw yn cynnwys dymchwel Mountain Ash Cottage.

Roedd y cais wedi'i ddwyn gerbron y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar yr 31^{ain} o Ionawr 2024, pan argymhellwyd gan y Swyddog i roi caniatâd i'r cais. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau wedi penderfynu gohirio'r cais er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle a bod y swyddogion yn gofyn i'r ymgeisydd a fyddai'n ystyried gwneud newidiadau i'r dyluniad.

Dosbarthwyd copïau o rai o'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fis Ionawr, ond dywedodd y Cyfarwyddwr ei bod wedi derbyn cadarnhad gan yr Asiant y byddai cynlluniau diwygiedig yn cael eu cyflwyno oedd yn



dileu'r balconi, ond nid oedd y cynlluniau diwygiedig hyn wedi dod i law adeg yr ymweliad.

Gan nad oedd yr Asiant wedi gallu nodi union leoliad cornel de ddwyreiniol y tŷ mwyaf deheuol ar y safle, dangosodd y swyddogion ble yn fras oedd y gornel agosaf at eiddo'r gwrthwynebydd. Roedd y gwrthwynebydd ei hun wedi nodi'r hyn a ystyriai yn fras ble oedd uchder lefel llawr cyntaf a lefel canllaw y balconïau ar ei ffens derfyn.

Yna cerddodd yr Aelodau o amgylch y safle ac ychydig i lawr y llwybr cyhoeddus cyfagos. Cerdded wedyn ar hyd y ffordd i weld ffrynt Mountain Ash Cottage yng nghyd-destun y strydwedd cyn edrych ar y safle o ardd yr eiddo cyfagos.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai gofyn i'r Asiant gyflwyno rhagor o wybodaeth am uchder a lefelau cymharol y tai cyn y Pwyllgor. Hefyd gofynnir am gynlluniau i nodi'r coed ar y safle.

Gan ddiolch i bawb am eu presenoldeb, daeth y Cadeirydd â'r ymweliad safle i ben.

